

Ogof Siôn Corn 2021

Telerau ac Amodau Gwerthu Tocynnau

- Atyniad antur tanddaear yw Ogof Siôn Corn. Sylwch y bydd rhannau o'r daith yma yn y tywyllwch.
- Am resymau diogelwch Covid, fydd dim modd i chi dreulio amser ar y safle a bydd eich grŵp yn llai o faint.
- Am resymau diogelwch Covid fydd dim modd aros ar y safle, hynny yw, chewch chi ddim ymweld â'r arddangosfeydd a fydd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda ddim yn darparu unrhyw weithgareddau ychwanegol. Bydd y caffi a 'Craft of Hearts' yn parhau i fod ar agor.
- Rhaid i unrhyw un sy'n mynd i mewn i'r Atyniad dalu ffi mynediad neu fod â thocyn dilys, ac eithrio plant 18 mis ac iau. Bydd mynediad am ddim i blant 18 mis ac iau a byddan nhw'n cael anrheg sy'n addas i'w hoedran gan Siôn Corn.
- Rydyn ni wedi gwneud ein gorau glas i ddewis anrhegion o ansawdd da. Bydd anrhegion gwahanol ar gyfer dau gategori oed gwahanol – dan 3 oed a thros 3 oed. Dyma'r oedran sy wedi'i nodi ar yr anrhegion gan y gwneuthurwyr. Cyfrifoldeb rhieni/gwarcheidwaid yw hi i oruchwylio plant pan fyddan nhw'n chwarae â'r anrheg oddi wrth Siôn Corn.
- Bydd teithiau'n gadael yn brydlon ac mae'n hanfodol bod deiliaid tocynnau yn cyrraedd y lleoliad mewn digon o amser i ddangos eu tocynnau wrth y dderbynfa a bod yn barod i gychwyn y daith. Os byddwch chi'n cyrraedd yn hwyr, **fydd dim modd** i chi ymuno â'r daith ar ôl iddi ddechrau. Fyddwch chi ddim yn cael eich arian yn ôl os byddwch chi'n colli'ch taith.
- Does dim modd cael ad-daliad a chewch chi ddim trosglwyddo tocynnau. Mae'n anochel y gall tywydd garw effeithio ar yr achlysur. Os bydd raid canslo'r achlysur oherwydd ei bod yn anniogel i barhau, byddwn ni'n cynnig i chi ddod ar ddiwrnod/amser gwahanol. Byddwn ni dim ond yn rhoi ad-daliad i chi os Parc Treftadaeth Cwm Rhondda sy'n canslo'r achlysur. Darllenwch y nodyn ar wahân isod ynglŷn â Covid.
- Sicrhewch eich bod chi'n cyrraedd o leiaf 10 munud cyn amser eich taith. Os byddwch chi'n cyrraedd cyn hynny, bydd gofyn i chi aros yn eich cerbyd tan 10 munud cyn amser cychwyn eich taith. Ar yr amser yma, cewch chi fynd i mewn i'r ganolfan ymwelwyr i ddangos eich tocyn wrth y dderbynfa.
- Er diogelwch a chysur pob gwestai, fe ddylech chi fod yn iach a heb salwch teithio. Ddylech chi ddim bod ag unrhyw broblemau yn ymwneud â'r galon, anadlu, y cefn, y gwddf, neu unrhyw gyflyrau eraill a allai gael eu gwneud yn waeth gan yr atyniad. Caiff effeithiau arbennig eu defnyddio yn yr atyniad megis goleuadau sy'n fflachio. Ddylai'r rheiny a allai gael eu heffeithio gan y goleuadau yma beidio â dod.
- Mae'n bosibl bydd chwiliadau yn cael eu cynnal ar bobl wrth iddyn nhw gyrraedd, neu ar unrhyw adeg, gan swyddogion awdurdodedig. Gall bagiau ac eiddo personol gael eu harchwilio hefyd. Os byddwch chi'n gwrthod cael eich archwilio, byddwn ni'n gwrthod mynediad i chi neu yn eich gorfodi i adael yr atyniad.
- Dydyn ni ddim yn caniatáu unrhyw sŵn neu ymddygiad a fydd yn drysu eraill neu beri niwsans iddyn nhw. Fyddwn ni ddim yn caniatáu ymddygiad sy'n aflonyddu ar eraill nac ymddygiad sy'n peryglu diogelwch gwestai eraill neu staff mewn unrhyw ran o'r atyniad.
- Dydyn ni ddim yn caniatáu ysmegu (gan gynnwys ysmegu e-sigaréts) ar y safle.

- Dydyn ni ddim yn caniatáu anifeiliaid yn yr atyniad, heblaw am gŵn tywys a chymorth.
- Dydyn ni ddim yn caniatáu alcohol. Fyddwn ni ddim yn caniatáu mynediad i unrhyw un sydd o dan ddylanwad alcohol.
- Mae manau diheintio dwylo ar gael ledled y safle wrth fynedfeydd/allanfeydd perthnasol.
- Cadwch at ganllawiau Covid ar y safle.
- Mae atyniadau ychwanegol ar y safle megis Dosbarthiadau Crefft a Gweithdai Siocled yn cael eu trefnu gan gyflenwyr trydydd parti. Fydd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda ddim yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros y gweithgareddau yma. Mae angen gwneud y trefniadau perthnasol gyda'r cyflenwyr yn uniongyrchol.
- Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i gynnig y profiad rydych chi'n ei ddisgwyl, fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser. Mae Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn cadw'r hawl i ddiwygio neu newid y daith heb rybudd.
- Mae Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un i'r atyniad, gwahardd unrhyw un o'r atyniad, neu orfodi unrhyw un i adael yr atyniad heb roi ad-daliad os bydd yn torri'r telerau ac amodau yma.
- Os oes rhaid i'r atyniad gau oherwydd cyfyngiadau COVID-19 mwy llym, bydd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn rhoi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl ac yn rhoi ad-daliad llawn lle bo hynny'n berthnasol.
- Ddylech chi ddim dod i'r atyniad yma os oes symptomau o COVID-19 gyda chi, os ydych chi wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â COVID-19 neu mae gwasanaeth olrhain cysylltiadau'r GIG wedi gofyn i chi hunanynysu.
- Bydd yn ofynnol i bob oedolyn ar y daith wisgo gorchudd wyneb neu fasg tra bydd yn y ganolfan ymwelwyr ac ar y daith oni bai ei fod wedi'i eithrio yn feddygol.

Polisi Ad-dalu COVID:

- Bydd ad-daliad llawn yn cael ei roi pe bai unrhyw un o'r canlynol yn digwydd:
 - Rydych chi wedi profi'n positif am COVID 19 ac yn methu â dod oherwydd eich bod chi'n hunanynysu.
 - Mae'r gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau wedi cysylltu â chi a'ch cyfarwyddo i hunanynysu.
 - Mae cyfyngiadau symud lleol yn eich gwahardd rhag dod i'r digwyddiad.
 - Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn newid sy'n golygu bod rhaid canslo neu ohirio'r digwyddiad.

Er eich tawelwch meddwl:

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i drefnydd yr achlysur gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws ar safle'r achlysur. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg honno. Wrth gynnal ein hasesiad risg, rydyn ni'n ymgynghori ag unigolion sy'n gweithio ar y safle ac yn rhoi pob mesur rheoli rhesymol ar waith, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gan roi sylw arbennig i ardaloedd cyfyng ar y safle lle mae'n bosibl y byddai modd i'r feirws drosglwyddo'n haws.

Ar gyfer yr ardaloedd risg uwch hynny lle mae'n anoddach cadw pellter cymdeithasol o bosibl, e.e. y lifft, gan mai ni yw'r trefnwyr, rhaid i ni sicrhau bod mesurau lliniaru ychwanegol ar waith, hynny yw, cyflymu'r lifft a sicrhau bod masgiau'n cael eu gwisgo a/neu ddarparu mynediad amgen. Er y bydd y mesurau lliniaru yn benodol i'r achlysur a'r safle, byddwn ni'n casglu data llawn am y staff a'r rheiny sy'n dod i'r safle ar gyfer y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Bydd hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth

Cymru adeg yr achlysur. Byddwn ni'n cyfathrebu'n drylwyr gyda'ch grŵp cyn eich ymweliad ac yn ystod eich amser ar y safle. Bydd arwyddion a marciau ar y llawr ar waith o hyd i bwysleisio'r angen i gadw pellter cymdeithasol lle bo hynny'n bosibl.